

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 49 Rhagfyr 5, 2024 50c.

Pwдинаu Menna: Apêl Ffynhonnau Byw

Gwnaeth Menna Lloyd Williams, bwдинаu Nadolig er mwyn eu gwerthu fel rhan o Apêl Ffynhonnau Byw, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Dywedodd, 'Fel arfer mi fydda i yn gwneud rhyw 40 o bwдинаu pob blwyddyn ond eleni fe wnes i 148 er mwyn codi arian.'

Dywedodd Geraint Rees, trysorydd yr Undeb. 'Mae'n gwbl anhygoel. Fe gysylltodd Menna gyda fi ar Facebook gan ddweud, "Dwi'n meddwl y galla i werthu pwдинаu Nadolig i helpu apêl yn yr Undeb." Atebais innau, "Os ofynnaf i yng nghyfarfodydd yr Undeb i ddeg o bobl fynd a 10 o bwдинаu yr un, wel dyna chi gant." Dywedodd hi, "Fe bryna i y cynhwysion i gyd a gall yr elw fynd at yr apêl." Ac fe dyfodd fel topsi. Roedd cant yn wych ond nawr mae dros 3 mil o bunnoedd yn dod i'r apêl.'

Dywedodd Menna yn ogleisiol ei bod yn edrych ymlaen at gael jeli coch a blymonj y Nadolig hwn ar ôl coginio'r holl bwдинаu Nadolig.

Diolch iddi am ei gwaith hael dros gyfiawnder yn y byd.

Oes ganddoch chi stori fach i rannu gyda ni sut yr aethoch ati i godi arian at yr apêl? Cysylltwch â'r Tyst neu Dŷ John Penri.



Prosiect y Gadair Goch

Sefyll yn erbyn cam-drin domestig



Mae Ebeneser, Caerdydd, eleni wedi gweithredu i dynnu sylw at yr ymgyrch hon yn erbyn cam-drin domestig.

Yn fyd-eang, mae menyw neu ferch yn marw bob 11 munud, o ganlyniad i gamdriniaeth gan bartner neu aelod o'r teulu. Dylai'r merched hyn fod gyda ni o hyd.

Mae Prosiect y Gadair Goch yn ymgyrch gan Gristnogion sy'n rhan o 16 Diwrnod o Weithredu yn Erbyn Trais ar sail Rhywedd. Mae'n annog unigolion, mudiadau ac eglwysi i gadw cadair sy'n nodi'r gwagle a adawyd gan bob un o'r merched hyn a gollodd eu bywydau.

Mae Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Trais yn Erbyn Menywod yn digwydd ar 25 Tachwedd:

Mae'r ARGLWYDD wedi dweud beth sy'n dda, a beth mae e eisiau gen ti: Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser, a byw'n wylaidd ac ufudd i dy Dduw.

(Micha 6:8)

Arfon Jones



**Fel y dywedodd y Bardd Coch,
"WWW. Chic chic chic chic cwac cwac,
Gobl gobl gobl gobl cwac cwac
Wishgi wishgi, ffwrdd â hi
Mae'r Nadolig yn nesau!"**

Tasglu Sir Benfro

Cynhaliodd Tasglu Sir Benfro ei oedfa gyntaf yn ddiweddar. Roedd yr oedfa yng ngofal Delwyn Siôn, y cerddor ac arweinydd eglwys Gwaelod-y-garth. Teitl ei anerchiad oedd 'Taith y Pererin: o Siloa, Aberdâr i Fethlehem, Gwaelod-y-garth'.

Cafwyd anerchiad gwych ganddo yn adrodd hanes ei daith ysbrydol gan gynnwys cyfnod o 20 mlynedd o beidio â mynd i'r cwrdd. Roedd dros 50 yn bresennol ac aeth elw'r noson at Tir Dewi, yr elusen sydd yn helpu ffermwyr sydd yn mynd trwy gyfnod anodd.

Aelodau Tasglu Sir Benfro



'Wel dyma hyfryd fan i droi at Dduw'

Mae un o'm hoff emynau yn dechrau gyda'r geiriau uchod, emyn 36 yng *Nghaneuon Ffydd*. Yn ei lyfr, *Emynau Ffydd 2* (Cyhoeddiadau'r Gair 2007), mae'r diweddar Barchedig Wayne Hughes yn trafod ac yn esbonio'r emyn fel a ganlyn:


Ymddengys mai efelychiad o emyn Saesneg Frances J. Van Alstyne, 'Here from the world we turn' yw'r emyn syml ac effeithiol hwn o waith Watcyn Wyn. Llwydda'r emynydd i roi mynegiant i brofiad a dyhead pob gwir addolwr sy'n awyddus 'i droi at Dduw' lle bynnag y bo. Unwaith y

byddwn yn troi oddi wrth yr holl wrthrychau gau sy'n tueddu i ddod rhyngom a gwrthrych mawr ein ffydd, fe dderbyniwn yn gyson nid yn unig ffydd i greu ond hefyd 'nerth i fyw'.

Ac mae'n rhaid wrth y ddeubeth, y ffydd a'r nerth. Sylweddola'r emynydd mai 'Diddanydd Eglwys Dduw' neu hyd yn oed 'Gyfnethwr' Eglwys Dduw (Ioan 14:16, 26; 15:26 ac 16:7) sy'n estyn i deulu'r ffydd y gallu i greu ac i weithredu yn unol â hynny. Felly peth naturiol ydyw iddo ddeisyf yn daer:

O disgyn yma'n awr
yn nerth dy allu mawr.

Ofer yw ceisio cyflawni unrhyw beth yn ein nerth tybiedig ein hunain – rhaid dibynnu ar nerth yr Ysbryd Glân i drin ein briwiau ysbrydol ac emosiynol ac i'n llenwi â'r gallu a'r awydd i wasanaethu 'Iachawdwr mawr y byd'. Ef sy'n addo bywhau ei waith yng nghanol y blynyddoedd (Hab. 3:2, Cyfieithiad yr



Gweddi'r Adfent Yr Ailddyfodiad

Gostwng dy glust, ein Duw grasol, i wrando ar ein hymbiliau wrth inni alw i gof addewidion gwerthfawr ein Harglwydd Iesu Grist i ddod



drachefn yn ei ogoniant i'n byd ni. Daeth i'n plith ni gyntaf yn ddarostyngedig, ar agwedd gwas. Yn ei ailddyfodiad fe ddaw yn ei holl ogoniant gyda'r angylion sanctaidd. Y tro cyntaf daeth mewn dull fe dyn, a hawdd y gallai pobl fethu ei adnabod. Pan ddaw yr eildro, ni fydd amheuaeth pwy ydyw. Deisyfwn arnat feithrin ynom hiraeth am weld y diwrnod mawr hwnnw'n dod. Amddiffyn ni rhag i atyniadau a phrysurddeb y byd hwn bylu'r hiraeth. Y mae'r Arglwydd Iesu wedi'n rhybuddio ni i fod yn barod, fel y morynion yn ei ddameg, gydag olew yn ein lampau pan ddaw'r Priodfab i'r wledd. Gwna ni'n bobl barod, oherwydd fe ddaw ei ddiwrnod fel lleidr yn y nos ac ni fynnem fod yn cysgu pan ddaw. A phâr i'r gobaith godidog am ei weld yn dod yn ei holl ogoniant ein diogelu ni rhag pesimistiaeth a digalondid. Os digwydd inni orfod dioddef ein difenwi a'n camfarnu, ein gorthrymu a'n camdrin, rho ras inni barhau'n ffyddlon hyd yn awr pan ymddangoso'r Brenin. Gyda'r Eglwys trwy'r byd ymbiliwn, 'Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu.' Amen

Gweddio (1992), R. Tudur Jones (1921–98)

Esgobion). Rhaid ymroi i ymbilio'n gyson am hyn, a hynny'n gyhoeddus ac yn ddirgel.

Mor rhyfeddol yw'r Duw sy'n barod i'n bywhau, i'n harwain a'n cryfhau 'nid dros dro, nawr ac yn y man, ond yn gyson ar hyd y daith.'

Gweddi:

O Dad trugarog a graslon, yng nghanol ein llesgedd tyred atom i'n bywhau. Yng nghanol ein mynych grwydradau, tyred atom i'n harwain. Yng nghanol ein gwendid, tyred atom i'n cryfhau. AMEN.

Llewelyn Picton Jones
(allan o *Cwlwm*, cylchgrawn Hope- Siloh, Pontarddulais Hydref 2024)

Y Nadolig Diflanedig?

Ar ymweliad â thref fawr yn ddiweddar, fe ddois ar draws siop pop-yp enfawr mewn stad siopau – hen adeilad siop gadwyn oedd wedi mynd i'r wal wedi'i throï'n siop dros dro ar gyfer gwerthu addurniadau Nadolig. Roedd yr arwydd tu allan yn honni mai hon oedd y siop addurniadau a chardiau Nadolig mwyaf yn y wlad, ac wedi mentro i mewn, hawdd oedd credu hynny. Roedd 'na lonydd hir o nwyddau Nadolig o bob math: rhesi o gardiau Nadolig, goleuadau lliwgar, addurniadau ar gyfer tu mewn a'r tu allan i'ch cartref, addurniadau ar gyfer addurno eich anifeiliaid anwes, i addurno'r car, heb sôn am bob math o wisgoedd Nadolig ar bob un thema bosib.

Ac eto, ddim yn hollol. Oherwydd, er bod dewis anhygoel o bob math o addurniadau ar gael, doedd dim byd yn sôn am wir ystyr y Nadolig i'w weld yn unlle. Roedd 'na filoedd o becynnau o gardiau Nadolig: cerdyn ar gyfer pawb a cherdyn i siwtio pob oed, o bob lliw a llun. Roedd digon o luniau Siôn Corn, robin goch, eira, clychau, ayyb, ond dim un cerdyn ag unrhyw arlliw o neges y Nadolig. Doedd dim un preseb, dim un gŵr doeth, dim Joseff na Mair, na'r baban Iesu chwaith, i'w weld yn unlle. Wrth edrych ar yr addurniadau, eto, roedd digon o bethau lliwgar a deniadol – yn symud, yn goleuo ac yn fflachio. Roedd sawl Siôn Corn, carw, trên y Nadolig ayyb, ond dim un olygfa'r geni yn unlle. Er bod 'na filoedd o eitemau, doedd dim byd i'n hatgoffa am neges wreiddiol y Nadolig. Dwn i ddim oedd hyn yn fwrriadol ai peidio. Ond weithiau mae ein hymdrechion i fod yn gynhwysol, a'n hawydd i beidio tramgwyddo yn golygu ein bod yn colli'r neges yn llwyr.

Bydd llawer cyngor tref a dinas yn fwrriadol yn osgoi'r gair Nadolig yn llwyr, a chyfeirir at Winterfest - Gŵyl y Gaeaf fel gŵyl niwtral, rhag pechu neb. Gwyddom am ysgolion sydd wedi cael gwared ar ddrama'r Geni a gwasanaethau carolau am yr un rheswm. Bydd holl hysbysebion yr ŵyl ar y teledu'n canolbwyntio ar y dathlu a'r gloddesta, ond heb sôn o gwbl am y rheswm dros y dathlu.

Mewn arolwg gan Scripture Union rai blynyddoedd yn ôl, dangoswyd mai ychydig iawn o stori'r Nadolig sy'n wybyddus i lawer o blant erbyn hyn, gyda mwy yn credu mai stori chwedlonol yw hi, yn hytrach na hanes go iawn. Yng nghyfnod yr Adfent, wrth inni ac wrth inni roi ein trefniadau Nadolig yn eu lle unwaith yn rhagor eleni, tybed be fedrwn NI ei wneud i sicrhau nad yw gwir neges y Nadolig yn 'ddiflanedig' yn ein cymunedau? Dyma rai syniadau:

Ceisio bod yn bresenoldeb gweledol yn y gymuned

Beth am osod golygfa'r geni mewn bocs o flaen y capel, a'i goleuo os yw'n bosib, er mwyn iddi fod yn weledol gyda'r nos?

Beth am roi baner o flaen y capel yn nodi mai gŵyl Gristnogol yw'r Nadolig? Mae gan y Cyngor Ysgolion Sul faneri ar werth ar gyfer tu allan a'r tu mewn i'r capel.

A fyddai'n bosib defnyddio gofod cymunedol arall – parc chwarae, neuadd bentref, cornel mewn tafarn leol – i greu murlun, arddangosfa neu bosteri sy'n ein hatgoffa am y Nadolig?



Os oes ffair Nadolig yn yr ardal, beth am fynychu gyda stondin? Byddai bod allan ar y stryd yn rhannu diodydd poeth a siocledi yn ffordd o feithrin sgwrs gyda phobl yn y gymuned. Byddai'r Cyngor Ysgolion Sul yn hapus i gyflenwi llyfrau ar ddychwel neu werthu i chi ar gyfer hyn.

Beth am drefnu oedfa garolau allan yn yr awyr agored, o flaen coeden Nadolig, efallai, neu hyd yn oed fynd o gwmpas yr ardal gan ymweld â chartrefi lle mae aelodau hyn yn byw a fyddai'n gwerthfawrogi clywed carolau?

Cyfleodd i rannu neges yr efengyl

Bydd llawer o eglwysi'n dewis rhannu tractiau a llyfrynau Nadoligaidd o gwmpas yr ardal, i dynnu sylw yn ogystal at wasanaethau arbennig. Ceir sawl cylchgrawn lliwgar, yn ogystal â llyfryn *Pam y Nadolig?* sydd ar gael i'w prynu'n rhad er mwyn eu rhannu am ddim.

Mae'r Nadolig yn gyfle gwych i wahodd y gymuned i mewn i'n hadeiladau hefyd – i ganu carolau, bwyta mins peis ac yfed diod o win cynnes. Mae'n gyfle hefyd i wirioni ar y plant yn cyflwyno'r ddrama flynyddol, neu wasanaeth Cristingl gyda'r orenau. Pa well ffordd o gyhoeddi i'r byd ein bod ar agor ac yn barod i groesawu pawb i mewn? Trefnwch ddigwyddiadau gwahanol, hysbysebwbwch nhw'n dda, gan ddangos yn glir fod 'na groeso i bawb.

Nadolig diflanedig? Dyna a welir, beryg – oni bai ein bod ni, fel dilynwyr i Iesu Grist, yn ymdrechu i wneud yn siŵr fod neges y Nadolig yn cael ei gweld a'i chlywed yn ein hardaloedd. Pa wahaniaeth fedrwn chi ei wneud eleni? Pa rai o'r syniadau uchod fedrwn chi a'ch eglwys eu gwireddu?

Cofiw, drwy'r cwbl, eiriau Ioan, 'Mae'r golau'n dal i ddisgleirio yn y tywyllwch, a'r tywyllwch wedi methu ei ddiffodd. Daeth y Gair yn berson o gig a gwaed; daeth i fyw yn ein plith ni. Gwelon ni ei ysblander dwyfol – ei ysblander fel Mab unigryw wedi dod oddi wrth y Tad yn llawn haelioni a gwirionedd'.

Aled Davies

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol 2024



Dim lle i gysur na llawenydd

I lawer ohonom, y Nadolig yw'r adeg i deulu a ffrindiau ddod at ei gilydd i ddathlu. Ac wrth i ni fwynhau'r cwmni a'r dathlu, mae Cymorth Cristnogol yn gofyn i ni gofio am deuluoedd sy'n byw trwy wrthdaro ar ôl colli eu hanwyliaid a'u cartrefi. I lawer o'n cymdogion ledled y byd, yn aml does dim lle i gysur na llawenydd pan fyddan nhw wedi gorfod gadael popeth ar ôl er mwyn goroesi.

Yn ystod yr Adfent a'r Nadolig hwn, mae Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar sefyllfa ffoaduriaid yn Ne Sudan, lle mae dros bedair miliwn o bobl heb gartrefi a miloedd yn croesi'r ffin o Sudan bob dydd, i chwilio am loches rhag y rhyfel. Dyma stori Shede.

Roedd Shede yn byw yn ninas El-Daein, yn Darfur, gyda'i gŵr. Mae ganddyn nhw dair merch; mae'r ddwy hynaf wedi tyfu i fyny, a'r un ieuengaf, Saida, yn chwech. Mae ganddyn nhw wyres chwech oed hefyd – Mariem.

Pan rwygodd gwrthdaro drwy Sudan, chwalodd teulu Shede. Lladdwyd ei brodyr ac anafwyd ei nai yn ddifrifol.

O fewn misoedd, roedd Shede yn teimlo nad oedd ganddi ddewis ond ffoi a chwilio am loches yn Ne Sudan. Gyda'i dwy ferch hynaf a'r ddwy ferch fach, gwnaeth Shede y daith drawmatig ar fws i Wersyll Ffoaduriaid Wedweil. Arhosodd ei gŵr ar ôl, a gan nad oes modd cysylltu ag ef, dydyn nhw ddim wedi siarad ers hynny: "Dydw i ddim wedi clywed dim gan fy ngŵr drwy'r rhyfel. Does gen i ddim ffôn. Yn anffodus, does gennym ni mo'r arian i brynu ffôn."

Ar ôl cyrraedd Wedweil, penderfynodd y ddwy ferch hynaf deithio ymhellach. Ond allen nhw ddim gwneud y daith gyda Mariem fach, a chafodd ei gadael ar ôl yng ngofal ei mam-gu: "Pan welodd fy merched pa mor brin oedd y dognau yma yn y gwerysll ac nad oedd unrhyw obaith o ennill cyflog, fe adawon nhw i chwilio am swyddi i gynnal y teulu. Nawr mae fy nwy ferch hynaf yn gweithio mewn bwyty ger glan yr afon. Mae un ohonyn nhw'n gyfrifol am olchi llestri, gweini te a gweini bwyd."

Mae Shede yn byw gyda'r ddwy ferch fach yn lloches Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid yn y gwerysll, gan obeithio y daw heddwch.

Dydy ffoi rhag gwrthdaro ddim yn golygu bod y perygl drosodd i bobl fel Shede a dydy'r penderfyniad i adael ddim yn un hawdd.

Oni bai eu bod yn cael cymorth ariannol, does dim modd i deulu sydd wedi cyrraedd gwerysll brynu bwyd maethlon. Mae plant yn dioddef poenau newyn ac yn dioddef o ddiffyg maeth yn gyflym. Does dim modd prynu meddyginiaeth hanfodol ac mae anhwylderau y gellir eu hatal a rhai cronig yn datblygu'n gyflyrau sy'n peryglu bywyd. Does dim modd prynu pethau fel blancedi, dillad a sebon, ac mae teuluoedd yn cysgu ar lorïau moel yn y llochesi dros dro, sy'n golygu ei bod yn amhosib sicrhau iechyd a hylendid da.

Rhaid i Shede bwysu a mesur yn ofalus ei dognau bwyd ac arian parod, penderfynu faint i'w wario ar anghenion yn syth, a faint i'w gadw i brynu anghenion eraill. Wrth iddi edrych tua'r dyfodol, mae Shede eisïau cynilo i brynu offer coginio. Ar ôl gweithio yn y bwyty yn Sudan, mae Shede yn gwybod y gallai coginio fod yn fodd iddi ennill bywoliaeth.

Mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn Ne Sudan ers y 1970au, yn gweithio gydag eglwysi a phartneriaid eraill i hyrwyddo heddwch, ac yn cyflwyno a chefnogi prosiectau sy'n cynnig cyflenwadau achub bywyd, yn hyfforddi hyrwyddwyr cymunedol i atal trais yn erbyn menywod, a chefnogi ffermwyr mewn arferion sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd. Y llynedd, cefnogodd Cymorth Cristnogol a'i bartneriaid dros 43,500 o bobl.

Diolch i gefnogwyr anhygoel Cymorth Cristnogol ledled y Deyrnas Unedig, mae partner Cymorth Cristnogol, Mudiad Datblygu Smile Again Africa, wedi bod yn cyflwyno rhaglen sy'n darparu cymorth ariannol hanfodol i ffoaduriaid yng Ngwersyll Ffoaduriaid Wedweil. Dywedodd James Wani, Cyfarwyddwr Cymorth Cristnogol De Sudan, fod hyn yn achubiaeth i deuluoedd sydd wedi gadael popeth ar ôl er mwyn sicrhau eu bod yn goroesi.

Eglurodd: "Mae cynnig cymorth ariannol yn golygu y gall pobl flaenoriaethu eu hanghenion penodol eu hunain a phenderfynu sut i'w diwallu. Mae'r rhaglen hon yn rhoi dewis, gobraith ac urddas i bobl sydd wedi colli cymaint. Yn ogystal â diwallu eu hanghenion uniongyrchol, mae teuluoedd hefyd yn defnyddio'r cymorth



Llun - Cymorth Cristnogol, David Macharia

ariannol i sefydlu incwm newydd i'w cefnogi yn yr hirdymor."

Y Nadolig hwn, bydd rhoddion o gyngherddau carolau a gwasanaethau arbennig yn helpu i chwyddo'r coffrau ar gyfer prosiectau fel hyn. Gall rhoddion i'r apêl helpu i ddarparu prydau maethlon, meddyginiaeth, blancedi a chyflenwadau hanfodol eraill. Ac yn y tymor hir, bydd yn cefnogi pobl i ddatblygu incwm cynaliadwy ac yn cynyddu eu gallu i ymateb i'r problemau niferus y maen nhw'n eu hwynebu.

Mae gennym amrywiaeth o adnoddau ar gael yn Gymraeg a Saesneg eleni i'ch helpu i rannu stori Shede yn yr eglwys yn ystod yr Adfent a'r Nadolig.

Stori Shede – ffilm fer
Cerdyn Rysait Te Sinamon
9 Llith a Charol
Taflen Weddi'r Adfent
PowerPoint Gwasanaeth Pob Oed
Sgwrs Gwasanaeth Pob Oed
Nodiadau pregeth
Poster

I ddsygu rhagor am gymryd rhan, ewch i www.christianaid.org.uk a chliciwch ar 'Appeals'.

Myfyrdodau ar gyfer Suliau'r Adfent

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth y Parch Jim Clarke ychydig dros fis yn ôl. Bu'n golofnydd rheolaidd yn *Y Goleuad* a *Cenn@d* dros gyfnod maith. Bob blwyddyn byddai Jim hefyd yn pararoi cyfres o fyfyrdodau Adfent a Grawys i'w rhannu gyda'i aelodau a chyfeillion. Ein braint ni yw rhannu gyda darllenwyr *Cenn@d* y gyfres a baratowyd ganddo yn nhyrnor yr Adfent 2021 dros yr wythnosau nesaf (wedi'i diweddarau lle bo angen). Bendith ar y darllen, a choffa da am un a gyfranodd gymaint i fywyd a thystiolaeth ein heglwysi.

Dilyn y Goleuni

Un gannwyll yn ugeiniau – ugeiniau'n
Gannoedd a'u pabwyrâu
'N filoedd o gannoedd, yn gwau
I'w gilydd yn un golau.

Dic Jones

Adfent 1: Y Seren a'r Deyrnwialen

Y seren a fu'n gennad – iddo Ef,
Rho Dduw, ail ennyriad,
A dyged hon, dirion Dad,
Y cedyrn at y Ceidwad.

Dewi Emrys

- **Darlleniadau:** Numeri 24:12–17; Mathew 2:1–12
- **Carol:** 'O tyred di, Emanwel' (*Caneuon Ffydd*, 432)
- **Myfyrdod**

Pa fendithion a ddaeth i ni yn sgil dyfodiad Crist i'n byd? Pa fendithion sydd ganddo ar gyfer ein calonnau heddiw? Wel, dwi am awgrymu fod yr ateb i'w gael mewn adnod yn llyfr Numeri: "Daw seren allan o Jacob, a chyfyd teyrnwialen o Israel" (Numeri 24:17). Ie – seren a theyrnwialen, arweiniad a diogelwch, datguddiad a sofraniaeth. Beth sydd ei angen arnom y dyddiau hyn yn fwy na goleuni yn ein tywyllwch a nerth yn ein gwendid? Pa oleuni all gymharu â gallu Brenin y Brenhinoedd ac Arglwydd yr Arglwyddi?

Dewch at y seren yn gyntaf: pelydr o oleuni oedd y seren – goleuni gobaith. Gwyddom fod Jeremeia wedi llefaru am 'obaith Israel', ac fe ategodd yr Apostol Paul yr un peth o'r carchar yn Rhufain pan ddywedodd, "Dyna'r rheswm, ynteu,

fy mod wedi gofyn am eich gweld a chael ymddiddan â chwi; oherwydd o achos gobaith Israel y mae gennyf y gadwyn hon amdanaf" (Actau 28:20). A dyma'r seren yn aros uwchben Bethlehem gan gyhoeddi, 'Ylwch! Cyflawnwyd gobaith Duw. Ganwyd y Crist! Y mae yma yn eich plith! Gwelwch ei seren!'

Roedd y seren yn symbol o ddatguddiad a goleuni. Oni ddywedodd Eiseia, "Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr; y rhai a fu'n byw mewn gwlad o gaddug dudew a gafodd lewyrch golau" (9:2). Wedi geni Ioan Fedyddiwr, daeth ei dad, Sechareias, y gŵr hynod hwnnw oedd yn gwbl hyddysg ym mhroffwydoliaethau meseianaidd yr Hen Destament, gan gyhoeddi, "Hyn yw trugaredd calon ein Duw – fe ddaw â'r wawrddydd oddi uchod i'n plith, i lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch cysgod angau, a chyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd" (Luc 1:78–9).

Ar ddechrau Efengyl Ioan clywn y geiriau cyfarwydd, "Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef" (Ioan 1:4–5). Tristwch ein sefyllfa ni heddiw ydyw i'r tywyllwch ddod i deyrnasu gan ei wneud ei hun yn berffaith gysurus yn ein plith – a doedd mo'i angen yma! Daeth y goleuni. Daeth Crist i'n byd! Llewyrchodd y goleuni!

Roedd y seren yn ganolbwynt i bobl; roedd megis *sat nav* nefol i arwain pobl Dduw. Cyn bod sôn am offer, siartiau neu radar, y sêr oedd yn cyfeirio taith pob llong! Roeddnt yn llongydd a sefydlog ac yn ddiwyo, yn union fel y mae Duw yn ffyddlon, yn driw ac yn drugarog.

Ond ai'r seren yw'r unig ffordd o ganfod angor i'n ffydd? Rydym wedi byw drwy dywydd stormus Covid 19 ac mewn sawl man ac aml i addoldy disgynnodd rhyw gefnlen o dywyllwch ac anobaith. Ond gwyddom fod goleuni Duw yn llewyrchu yn y tywyllwch ac yn clymu'r byd yn un teulu gyda'i gilydd. Yn wir, daw'r Nadolig â gobaith, goleuni, arweiniad a ffydd inni!

A beth am y deyrnwialen wedyn? Symbol o awdurdod y breninydoedd ac yn cynrychioli ei awdurdod, ei deyrnasiad, ei ogoniant a'i ffydd. Dywedir wrthym fod y Nadolig yn

gyfnod o lawenydd mawr, ac eto mae'n gyfnod rhyfedd iawn. Roedd gan Herod ofn i rywun geisio herio'i frenhiniaeth, a phan fethodd gael ateb digonol galwodd ynghyd yr ysgrifenyddion a'r prif offeriaid. Y cyfan allen nhw ei wneud oedd ailadrodd hen hen broffwydoliaeth, "Ond ti, Bethlehem Efrata, sy'n fechan i fod ymhlith llywthetau Jwda, ohonot ti y daw allan i mi un i fod yn llywodraethwr yn Israel, a'i darddiad yn y gorffennol, mewn dyddiau gynt." (Micha 5:2) Ganed y brenin, do, ac fe gododd teyrnwialen uwchlaw Israel unwaith eto. Cyhoeddwyd fod llywodraeth newydd wedi ei sefydlu, llywodraeth dragwyddol, heb na dechrau na diwedd iddi.

Ac yn olaf, cawn y newyddion fod y Nadolig yn cyhoeddi cyflawniad dyfodiad y deyrnas. Ganed y brenin! Wel, do wir – amser maith yn ôl! Sefydlwyd ei lywodraeth. Mae pob awdurdod i lywodraethu eisoes ganddo, hyd yn oed yn ein dyddiau ni. Ond y mae llawer eto sydd yn ymwrthod â'i deyrnasiad, ac y mae'n rhaid inni gredu, gweddïo a gweithio i sicrhau y gwelir dydd yn dod pryd y bydd pob glin yn plygu iddo a phob tafod yn cyffesu Crist yn Dywysog Tangnefedd, yn Frenin y Brenhinoedd ac yn Fab Duw! Tydyn ni ddim yno eto – ond fe ddaw'r dydd.

Mae Duw oll yn oll, yn hollbresennol yn ein hamgylchiadau. Ym merw popeth, a'n methiant rywsut i gwmpasu popeth sy'n digwydd, daw'r Nadolig eleni eto i'n hatgoffa mai Duw sy'n ben, yn sofran ac yn fugail ar ei deyrnas a'i bobl. O na fyddai gennym y llygaid i weld hynny a'r clustiau i glywed ei neges, a'r galon i dderbyn ei gariad a'i nerth.

- **Gweddï** (o'r Llyfr Gweddï Gyffredin)

Deffro ein calonnau, erfyniwn arnat, O Arglwydd, i baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodiad dy unig-anedig Fab, fel y bo i ni, â'n meddyliau wedi eu puro drwy ras ei ddyfodiad, allu dy wasanaethu'n ffyddlon holl ddyddiau ein bywyd; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yr awr hon ac yn dragwydd. Amen.

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
Sul, 8 Rhagfyr, am 7:30yh –

Adfent #2

Rhaglen o garolau a pherfformiadau'r Nadolig wrth nodi Ail Sul yr Adfent. A chawn gyfle i ddysgu am waith elusen Byddin yr Iachawdwriaeth

radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
Sul, 8 Rhagfyr, am

7:30yb a 4:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siân Thomas

Oedfa Radio Cymru

Sul, 8 Rhagfyr, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Cass Meurig, y Bala

Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Mair a Pilat: Myfyrdod Adfent

Roedd Sul olaf Tachwedd eleni yn Sul olaf y flwyddyn litwrgaidd, ac felly'n canolbwyntio sylw ar Iesu'r Brenin, neu'n well, efallai, ar frenhiniaeth Iesu. Y darlleniad a gynigiwyd yn y darlleniadur oedd hanes Iesu gerbron Pilat yn Ioan 18, gyda'r cwestiwn creiddiol gan Pilat, 'A wyt ti yn frenin?' A dyna'n harwain ni i ystyried: Pa fath frenin oedd ac yw Iesu; yn wir, a yw'r teitl 'brenin' yn addas i'w ddefnyddio amdano bellach?

Credo Nicea

Treuliais beth amser yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd mewn cynhadledd Cyngor Eglwysi'r Byd a gynhaliwyd yn Genefa. Yn fy stydi. Ar Zoom. Roeddem yno i feddwl am Gredo Nicea, un o gredoau hynaf yr Eglwys Gristnogol, yn dyddio o'r 4edd ganrif. Cytunwyd ar y fersiwn gyntaf o'r gredo hon yn Nicea yn 325AD. Felly bydd 2025 yn ben-blwydd. Daeth 300 o esgobion i Nicea, ynghyd ag offeiriaid a chynorthwyr (gan gynnwys rhai merched). Meddylwch beth oedd ei angen i gael yr holl bobl hynny o bob rhan o'r byd Cristnogol yn 325AD i Nicea (dinas fodern Iznik yn Nhwrci), a hynny ar yr un pryd! Daethant ar wahoddiad yr Ymerawdwr Cystennin. Roedd am atal mudiad hereticaidd (dan ddylanwad Ariws, sydd ar lawr o flaen yr Ymerawdwr yn yr eicon hwn) a honnodd nad oedd Iesu yn gwbl ddydol AC yn gwbl ddwyfol. A dweud y gwir, nid oedd fawr o ots gan Gystennin am y ddiwinyddiaeth! Atal argyfwng oedd ei

nod, nid yn unig i'r Eglwys, ond yn bwysicach, iddo ef, ac i'r Ymerodraeth. Roedd Eglwys wedi'i hollti yn golygu Ymerodraeth wedi'i hollti ac roedd Ymerodraeth wedi'i hollti yn beryglus i'w safle a'i statws.

Wrth i mi feddwl am y gynhadledd ac, ar yr un pryd, mynd ati i baratoi ar gyfer arwain addoliad ar Sul olaf Tachwedd, cefais fy nharo gan rywbeth yr oeddwn wedi bod yn ymwybodol ohono o'r blaen, wrth gwrs, ond nad oeddwn wedi meddwl llawer amdano mewn gwirionedd.

Dau berson

Dim ond dau ffigwr hanesyddol (heblaw am Iesu ei hun) sy'n ymddangos yn y credo. Y cyntaf yw Mair. Yr ail yw Pontius Pilat. Ac maent yn ymddangos yn agos iawn at ei gilydd:

...Er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth disgynnodd (yr Arglwydd Iesu Grist) o'r nefoedd; trwy nerth yr Ysbryd Glân daeth yn gnawd o Fair Forwyn, ac fe'i gwnaed yn ddyd, Fe'i croeshoeliwyd drosom dan Pontius Pilat. Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.

Ganwyd o Fair; croeshoeliwyd dan Pilat. Roedd un yn ifanc a bregus; roedd yn ofnus mae'n siŵr; roedd yn ddiniwed, anadnabyddus, a dibrofiad yn sicr; nid oedd ganddi ddylanwad na grym ym myd y pwerus.



Yr oedd y llall yn meddu ar bŵer, er nad ei bŵer personol ef ei hun ydoedd. Pŵer Rhufain oedd ganddo. Roedd yntau wedi dychryn hefyd, mae'n siŵr. Ofnai y byddai'n colli unrhyw bŵer oedd ganddo oni bai ei fod yn gwneud y peth cywir. Roedd yn nerfus o'r torfeydd oedd yn galw am i Iesu gael ei groeshoelio. Efallai ei fod am wneud y peth iawn parthed Iesu, ond ysywaeth nid dyna fyddai'r peth cywir o safbwynt Pilat ei hun! Felly cafodd Iesu ei groeshoelio, i blesio'r dyrfa ac i gynnal statws a safle Pilat yn yr Ymerodraeth. 'Fe'i traddododd ef ...'

Ac mae'r Credo yn eu cofio 1700 o flynyddoedd yn ddiweddarach! Yn ein byd o rym a diniweidrwydd. Wrth galon ein ffydd y mae merch ifanc a fu fyw i'w henaint yn gorfod ymgodymu â dagrau dirdynol bob dydd wrth gofio gwylio ei mab yn marw ar groes. A Pilat hefyd yno yn y credo.

Yn y diwedd – dyma yw ergyd y Credo, mae'n siŵr – pwrpas y Duw y gobeithiwn ynddo yw mai'r bregus a'r dirym, fel Mair, sy'n cael eu 'dychafu' ac sy'n medru 'dwyn i lawr lywodraethwyr (sy'n chwennych grym llwyr – heddiw fel y pryd hwnnw) o'u gorseddau' (yng ngeiriau'r Magnificat neu Gân Mair). Felly, 'Credwn'.

Noel Davies

(yn seiliedig ar fyfyrdod gan yr awdur yng nghylchgrawn Eglwys Unedig Sgeti, Abertawe. Bydd ail ran y myfyrdod hwn yn y rhifyn nesaf o'r Tyst)



Barn Annibynnol

YR EGLWYS SYMUDOL

Yr addoldy cludadwy yn yr anialwch y gorchmynnodd Duw i'r Israeliaid ei adeiladu wedi iddynt gael eu hachub rhag caethwasiaeth yn yr Aifft oedd y Tabernacl. Gorffennwyd y gwaith o'i godi flwyddyn ar ôl i'r Israeliaid adael yr Aifft. Roedd yn rhaid gwneud pabell a fyddai'n hawdd ei thynnu i lawr a'i chodi eto. Bob tro y byddai'r Israeliaid yn symud i rywle arall yn yr anialwch, bydden nhw'n cludo'r babell gyda nhw. Dechreuodd taith y Tabernacl yn Sinai cyn symud i Kadesh, yna Gilgal, Shiloh, Nob a Gibeon. Cafodd ei ddefnyddio wedi iddynt groesi'r Môr Coch nes i'r Brenin Solomon adeiladu'r deml gyntaf yn Jerwsalem, cyfnod o dros 400 mlynedd.



Gwedd symudol

Wrth edrych o'n cwmpas a gweld cynifer o'n haddoldai yng Nghymru heddiw, rhai ohonynt yn adeiladau enfawr, yn unig a thrist eu golwg, a chwbl anaddas bellach ar gyfer eu bwriad gwreiddiol, mae rhywun yn holi a oes modd i ni gael ein hysbrydoli gan hen arfer yr Israeliaid gynt? Wedi'r cyfan, mae yna wedd symudol i'n cymdeithas ni heddiw, gyda phobl a phethau'n symud oddi mewn i ardaloedd neilltuol a thu hwnt iddynt yn bur aml. Go brin fod unrhyw beth yn statig yn oes y dyfeisiadau symudol amrywiol, gan gynnwys ein heglwysi.

Does gan eglwysi symudol ddim adeilad parhaol, wrth reswm. Yn hytrach, maent yn cyfarfod mewn mannau lleol fel ysgol neu ganolfan gymunedol neu westy, ac yn symud, weithiau ar ôl cyfnod byr a thro arall gyfnod hwy, gan ddibynnu ar wahanol amgylchiadau ac anghenion, er enghraifft, cyfleustra, cartrefi'r aelodau, nifer y plant, hwylustod teithio ac yn y blaen. Nid yw hyn oll heb ei heriau, wrth gwrs.

Gofod addas

Un her fawr sy'n wynebu eglwysi mewn lleoliadau symudol yw troi gofod seciwlar yn fan addas a phriodol i alluogi a chynorthwyo pobl i droi at Dduw. Mae'n golygu meddwl yn fwriadus am y gofod er mwyn sicrhau'r profiad gorau posib. Rhaid hefyd archwilio'n gyson beth mae'r gofod yn ei gyfleu i'r bobl sy'n mynychu ac yn ymweld â'r eglwys. Mae'r cyflenwadau a ddefnyddir ar y Sul, neu unrhyw ddiwrnod arall o ran hynny, yn aml yn gyfyngedig i'r hyn y gellir ei gludo i mewn ac allan bob wythnos. Mae'n golygu bod yn greadigol o ran storio, paratoi a hyd yn oed ddefnyddio adnoddau. Nid oes lle i bethau diangen – ond nid yw hynny'n beth drwg i gyd!

Pobl yn gyntaf

Ond pan nad oes gennych adeilad i'w alw'n un i chi, mae'r eglwys yn dod yn bobl ac nid yn lle. Mae gwell ymdeimlad o gymuned yn gallu cael ei ffurfio wrth i aelodau ddod at ei gilydd, nid yn unig i fynychu eglwys ond i wneud i eglwys ddigwydd bob wythnos drwy sefydlu'r gofod a chreu'r amgylchedd. Mae ymchwil yn dangos hefyd fod yr ymdrech yn talu ar ei ganfed gan fod pobl nad ydynt yn mynychu capel neu eglwys fel arfer yn teimlo'n fwy cartrefol mewn mannau anffurfiol

fel hyn. Dyw pobl ddim yn gallu uniaethu'r eglwys ag adeilad ychwaith. Mae'r eglwys symudol yn gorfod rhoi'r bobl yn gyntaf. Rydym wedi clywed yr ymadrodd filiynau o weithiau: nid yr eglwys yw'r adeilad, yr eglwys yw'r bobl. Mae'r ffaith sylfaenol hon, fodd bynnag, yn cael ei hanghofio gan bobl eglwysig yn llawer rhy aml.

Fe ddywedodd un offeiriad y dylai eglwys symudol fod yn rhan barhaol o'r

dyfodol. Nid datrysiaid dros dro mohono nes dod o hyd i adeilad parhaol. Yn hytrach, mae'n arf i helpu'n heglwys i fod yn bopeth y'i gelwir hi i fod.

Costau

Un o brif fanteision sefydlu eglwys mewn lleoliad symudol yw'r gost. Does dim costau adeiladu neu forgais chwerthinllyd o uchel i ddelio â nhw. Does dim to ac aerdymheru ac atgyweiriadau i boeni amdanynt ychwaith. A does dim gwasanaethau glanhau a diogelwch misol i godi arian ar eu cyfer!

Mae lansio mewn cyfleuster dros dro yn caniatáu i'ch eglwys wneud defnydd llawn o'r gofod heb dorri'r banc! Gall eglwys symudol weithredu ar ffraciwn o'r incwm sydd ei angen ar gyfer cyfleuster parhaol. Mae modd sianelu'r arian a arbedir felly at deithiau cenhadol, rhaglenni allgymorth ac ymdrechion gweinidogaethol amrywiol. Wedi'r cyfan, nid yw adeiladau'n tyfu'r eglwys ond, ar y llaw arall, mae gan weinidogaeth effeithiol y potensial i wneud hynny.

Rhannu adnoddau

Rhannu gofod ac adnoddau sy'n mynd â hi'r dyddiau hyn. Mae'n gallu cynnig cyfleoedd diddiwedd i arbrofi. I eglwys, mae'n golygu nid yn unig gydwethio â gwahanol enwadau ond hefyd â gwahanol asiantaethau. Mae'n dod yn fwy amlwg i lawer o gynulleidfa oedd yn ogystal fod sefydlu perthynas cryf â sefydliadau cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd cyllidol. Enghraifft yw'r hybiau cymunedol ble mae gwahanol asiantaethau'n dod ynghyd mewn hen ysgol neu eglwys neu siop neu neuadd. Eu nod yw rhoi hwb i'r trigolion a'r economi lleol mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n gwbl briodol fod eglwysi ynghlwm wrth fentrau fel hyn. Wedi'r cyfan, mae gan eglwysi genadaethau sy'n cyd-fynd â nodau llawer o asiantaethau seciwlar, fel lleihau tlodi a phroblemau iechyd meddwl a hybu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cenedl.

Yn goron ar y cyfan mae ganddi'r genhadaeth ysbrydol.

A yw eglwys yn parhau i fod yn eglwys os yw'n cyfarfod mewn gwesty neu glwb ac ati? Rhydd i bawb ei farn, wrth gwrs, ond mae nifer yr eglwysi sy'n cyfarfod mewn mannau anrhaddodiadol yn graddol gynyddu, yn arbennig felly mewn rhai gwledydd. Arwydd o'r hyn sydd i ddod? Cawn weld.

R Alun Charles

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Diolchgarwch

Cynhaliwyd cwrdd
diolchgarwch eglwys
Ebenezer Llanybi, yn
yr Hydref ac yr oedd
pawb wedi mwynhau.
Roedd y gwasanaeth i
gyd o dan ofal plant
Ysgol y Dderi, Llanybi.
Roeddynt wedi paratoi
rhaglen a chafwyd
cyflwyniad gwych gan
blant rhwng 3 a 7 oed.
Roedd yr arian a
gasglwyd ganddynt yn
mynd tuag at elusen Uned Gofal Arbennig Babanod.



Karine Davies

Cydnabod gwasanaeth

Cydnabod 39 mlynedd o weinidogaeth y
Parchedig Geoffrey Eynon yng nghapel
Trefgarn Owen.



Ar fore dydd Sul, 3 Tachwedd 2024, daeth
gynulleidfa deilwng ynghyd i gapel
Trefgarn Owen i gydnabod gwasanaeth
arbennig 39 mlynedd gweinidogaeth y
Parch Geoffrey Eynon. Y mae Trefgarn
Owen yn un o eglwysi Cymraeg hynaf
enwad yr Annibynwyr yn Sir Benfro,
gyda'r dechreuadau yn mynd yn ôl i 1686.

Er bod Geoff wedi ymddeol ers dros
flwyddyn bellach, teimlwyd mai peth da
fyddai cynnal oedfa arbennig, nid yn unig

i gofio am ei wasanaeth, ond hefyd i
ddathlu 40 mlynedd ers ffurfio un ofalaeth
o dan ei weinidogaeth, sef eglwysi Pen-y-
bont, Cas-blaidd a Horeb, Treletert a
Threfgarn Owen.

Yn ystod y gwasanaeth, dangoswyd
nifer o gliapiau fideo o'r gwahanol
ddigwyddiadau a gynhaliwyd dros y
blynyddoedd - ymarferion ar gyfer
eisteddfodau rhwng yr eglwysi, pasiant i
ddathlu 40 mlynedd ers sefydlu'r ofalaeth
Newydd, cyfweiliadau o raglen *Dechrau
Canu*, *Dechrau Canmol* a ffilmwyd ym

Mhen-y-bont 1993.

Cafwyd nifer o ddarlenniadau,
gweddïau, unawdau, ynghyd ac atgofion
gan y Gweinidog ac ambell stori yn llawn
hiwmor - yn wir, roedd yn wasanaeth i'w
gofio. Fel arwydd bach o'n
gwerthfawrogiad ac i gofio'r gwasanaeth,
rhoddwyd plât pren a goblet iddo a wnaed
â llaw gan un o'r aelodau. Ar ddiwedd y
gwasanaeth, cafodd y gynulleidfa cyfle i
gymdeithasu dros wydred o *fizz*, a chacen,
ynghyd ag amser i rannu atgofion.

Diolchwyd i bawb oedd wedi cyfrannu
i'r gwasanaeth gan Jane Richards, a Julian
Harries fu'n cyfeilio.

Jane Richards

Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i
ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd.
Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw
cadarn, Tad bythol, Tywysog
heddychlon". Ni bydd diwedd ar
gynnydd ei lywodraeth, nac ar ei
heddwch i orsedd Dafydd a'i
frenhiniaeth, i'w sefydlu'n gadarn â
barn a chyfiawnder, o hyn a hyd byth.
Bydd sêl ARGLWYDD y Lluoedd yn
gwneud hyn.
(Eseia 9:6-7)